Rhif: WG30280

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2016

Dyddiad cyhoeddi: 17 Tachwedd 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 09 Chwefror 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd yr Information Governance Alliance (IGA) fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynghylch cynnwys y Cod a gweithredu'r Cod yng Nghymru er mwyn llunio Cylchlythyr Iechyd Cymru yn y dyfodol. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dd mm bbbb. Gallwch ymateb drwy'r post:<br><br>Angela Gough<br>Y Tîm Iechyd a Gofal Digidol<br>Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Neu drwy e-bost at:<br>HSS-DigitalHealthandCareCentralMailbox@cymru.gsi.gov.uk |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Enw/post generig<br><br>Cyfeiriad:<br>Y Tîm Iechyd a Gofal Digidol<br>Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:<br>HSS-DigitalHealthandCareCentralMailbox@cymru.gsi.gov.uk |

**Diogelu Data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

Tua diwedd 2014 gofynnodd Adran Iechyd Llywodraeth y DU i'r IGA arwain adolygiad o God Ymarfer Rheoli Cofnodion y GIG. Adolygwyd y Cod cyn hynny yn 2006, gyda chyfle i Gymru gyfrannu. Cyhoeddwyd rhai mân-ddiweddariadau yn 2009.

Cyhoeddwyd fersiwn newydd, wedi'i diweddaru o'r Cod yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2016.

Mae'r Cod hwn yn ganllaw i'w ddefnyddio wrth reoli cofnodion ac yn berthnasol i gyrff sy'n gweithio o fewn sefydliadau'r GIG yng Nghymru a Lloegr, neu dan gontract iddynt.

Seiliwyd y Cod ar ofynion cyfreithiol presennol ac arfer da proffesiynol. Bydd yn helpu sefydliadau i weithredu argymhellion Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford ynghylch rheoli cofnodion a thryloywder.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn disodli'r canllawiau blaenorol a restrir isod:

- Rheoli Cofnodion: Cod Ymarfer y GIG: Rhan 1 a 2: 2006, diwygiwyd 2009
- HSC 1999/053 – For the Record
- HSC 1998/217 – Preservation, Retention and Destruction of GP General Medical Services Records Relating to Patients (Replacement for FHSL (94)(30))
- HSC 1998/153 – Using Electronic Patient Records in Hospitals: Legal Requirements and Good Practice.

Mae'r Cod hwn yn rhan o gyfres o ganllawiau rheoli gwybodaeth sy’n cynnwys Cod Ymarfer y GIG ar Gyfrinachedd a Chod Ymarfer y GIG ar Reoli Diogelwch Gwybodaeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd.

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru (2000) 71, a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2000, yn rhoi'r cyngor cyfredol i Ymddiriedolaethau a byrddau iechyd Cymru ar reoli cofnodion.
http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/950/WHC_2000_71.pdf

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru wedi'i ddiweddaru a fydd yn ymgorffori cynnwys y Cod hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ynghylch eglurder y Cod a rhoi'r Cod ar waith yng Nghymru yn y dyfodol.

Gofynnir i chi ystyried y cwestiynau isod.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

| **C1 -Ydych chi'n cytuno bod diben y Cod yn glir?** | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☐ | Tueddi i Gytuno ☐ | Tueddi i Anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| *Beth fyddai'n helpu i wneud y ddogfen yn gliriach?* | | | |

| **C2: Ydych chi'n cytuno bod cynnwys y Cod yn cwmpasu'r meysydd disgwyliedig o Reoli Cofnodion o fewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol?** | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☐ | Tueddi i Gytuno ☐ | Tueddi i Anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| *Beth arall ddylid ei gynnwys?* | | | |

| **C3 - Ydych chi'n cytuno bod y Cod yn well na'r canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (WHC (2000) 71) neu ganllawiau Gwasanaeth fel llawlyfr Gwarcheidwaid Caldicott ar gyfer Cymru?** | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☐ | Tueddi i Gytuno ☐ | Tueddi i Anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| *Pa welliannau a wnaed, neu y gellid eu gwneud?* | | | |

**C4a - Ydi'r Cod yn helpu sefydliadau i ddiffinio'u gofynion yn well o ran cadw a dinistrio cofnodion papur ac electronig?**

**C4b - Ydi'r Cod yn gwrth-ddweud polisi presennol sefydliad ac yn effeithio ar brosesau busnes cyfredol?**

**C5 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi:**

**C6 - Hoffem glywed eich barn ar yr effaith y byddai Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2016 yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**

**i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
**ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**C7 - Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y Cod yn eich barn chi er mwyn**

**i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg,**
**ii) peidio cael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.**

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma. ☐